



Ewrop ar fynd

Siarad dros Ewrop

leithoedd yn yr Undeb Ewropeaidd



Undeb Ewropeaidd



Gallwch ddod o hyd i'r llyfryn hwn ac esboniadau byr, clir eraill am yr Undeb Ewropeaidd ar-lein ar ec.europa.eu/publications

Y Comisiwn Ewropeaidd
Directorate-General for Communication
Publications
B-1049 Brussels

Cwblhawyd y llawysgrif ym mis Awst 2008

Llun y Clawr: ©Shuttershock

Lwcsembwrg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, 2010

16 pp. – 21 x 29.7 cm

ISBN 978-92-79-12814-1

© Y Cymunedau Ewropeaidd, 2010

Awdurdodir atgynhyrchu. Rhaid cael caniatâd uniongyrchol gan berchenogion yr hawlfraint i atgynhyrchu lluniau unigol neu eu defnyddio mewn unrhyw fodd.

Printed in Belgium

ARGRAFFWYD AR BAPUR GWYN DI-GLORIN



Ewrop ar fynd

Siarad dros Ewrop

leithoedd yn yr Undeb Ewropeaidd

'Mae'r gallu i gyfathrebu mewn sawl iaith o fudd mawr i unigolion, sefydliadau a chwmnïau fel ei gilydd. Mae'n cynyddu creadigrwydd, yn chwalu stereoteipiau diwylliannol, yn annog pobl i feddwl yn gwbl ddilyffethair, ac yn gallu helpu i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol.'

Leonard Orban,
Aelod o'r Comisiwn Ewropeaidd



Ewrop ar fynd

Cynnwys

Pwysigrwydd iaith

03

Ieithoedd Ewrop

05

Ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol

07

Iaith a rhwyddineb symud

09

Hybu dysgu ieithoedd

10

Offer amlieithedd

12

Rhedeg Undeb Ewropeaidd amlieithog

13

Heriau'r dyfodol

15

Darllen pellach

15



Pwysigrwydd iaith



Mae'r iaith a siaradwn yn helpu i ddiffinio pwy ydym. Mae'r llu o ieithoedd a siaredir gan y 500 miliwn o ddinasyddion yn yr Undeb Ewropeidd wedi'u gwasgaru ar draws pedwar ban y cyfandir gan ffurfio brithwaith anferth. Mae'r UE yn cydnabod yr hawl hwn i hunaniaeth ac yn mynd ati i hybu ein rhyddid i siarad ac ysgrifennu ein hiaith ein hunain. Ar yr un pryd mae'n dal i anelu at ei nod o integreiddio'i aelodwledydd yn well. Mae'r amcanion hyn yn ategu ei gilydd, gan ymgorffori arwyddair yr UE, sef 'Unedig mewn amrywiaeth'.

Mae'r UE yn mynd ymhellach, a dweud y gwir, gan annog ei ddinasyddion i ddsygu ieithoedd. Mae medru iaith arall, neu sawl iaith efallai, yn ei gwneud yn bosibl i symud a dod o hyd i swydd mewn gwlad arall. Yn y farchnad lafur, mae'r

rhwyddineb hwn i symud yn helpu i greu swyddi newydd ac ysgogi twf. Mae medru ieithoedd eraill hefyd yn hybu cysylltiadau trawsddiwylliannol, cyd-ddealltwriaeth a chyfathrebu uniongyrchol rhwng dinasyddion unigol mewn Undeb sy'n ehangu ac yn dod yn fwyfwy amrywiol o hyd.

Dim gwahaniaethu


Mae 23 o ieithoedd swyddogol gan yr UE. Pan fo gwlad newydd yn ymaelodi â'r UE, fel arfer mae iaith genedlaethol y wlad honno'n dod yn un o ieithoedd swyddogol yr UE. Cyngor Gweinidogion yr UE sy'n penderfynu ar hyn. Mae hyn yn sicrhau y gall dinasyddion unigol yr UE ddefnyddio'r un iaith wrth gysylltu â'r UE a'i sefydliadau ag wrth gysylltu â'u hawdurdodau cenedlaethol gartref.

Yn yr un modd, mae'r holl ddeddfwriaeth newydd a fabwysiedir gan yr UE yn cael ei chyfieithu i'r holl ieithoedd swyddogol, fel y gall unrhyw ddinasyddion sydd â buddiant ledled yr Undeb wybod ar unwaith beth mae'r gyfraith newydd yn ymwneud ag ef a sut mae'n effeithio arnynt hwy. Mae'r un gwerth cyfreithiol gan bob fersiwn ieithyddol o gyfreithiau'r UE.

Felly mae'r UE yn sicrhau nad oes gwahaniaethu rhwng dinasyddion y mae llawer o bobl yn siarad eu hieithoedd ac eraill sy'n defnyddio ieithoedd a siaredir gan lai o bobl. Yn Senedd Ewrop, er enghraifft, mae rhyddid gan yr aelodau i annerch y cynulliad yn iaith y bobl maent yn eu cynrychioli. Mae gan aelodau o Slofenia gymaint o hawl ag aelodau o'r Almaen i siarad iaith y bobl a bleidleisiodd drostynt.



Ieithoedd swyddogol yr UE



(*) Gwyddeleg: iaith cytuniad ers 1973. Basgeg, Catalaneg, Galiseg: statws arbennig ers 2006.

(**) Defnyddiwyd y pedair iaith hyn gan Gymuned Glo a Dur Ewrop, a sefydlwyd yn 1950. Honno oedd y cam cyntaf at ffurfio'r hyn a ddaeth bellach yn Undeb Ewropeidd. Yn 1958 penderfynwyd yr ieithoedd swyddogol yn Rheoliad Cyngor Rhif 1, a newidiwyd bob tro'r ymaelododd gwledydd newydd â'r UE.

Y blynyddoedd y daeth ieithoedd cyfredol yr UE yn 'ieithoedd swyddogol' yr UE.



Cyfrifoldebau o bwys

Felly mae cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn gyfrifoldebau o bwys i'r UE. Wrth i 12 gwlad newydd ymaelodi rhwng 2004 a 2007 cynyddodd nifer yr ieithoedd swyddogol o 11 i 23, gan dynnu mwy o sylw at swyddogaeth ieithoedd yn yr UE nag erioed o'r blaen. Symbylodd hyn yr UE i greu amlieithedd fel maes polisi newydd yn 2007. Yr amcanion yma yw hybu dysgu ieithoedd yn yr UE, sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad i'r UE yn eu hieithoedd eu hunain, a manteisio'n llawn ar gyfraniad amlieithedd i ddatblygiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ymrwymiad yr UE i ddiogelu amrywiaeth ieithyddol yn dangos nad yw'n ceisio dileu nodweddion cenedlaethol neu ranbarthol a'u disodli gydag unffurdedd 'Ewropeaidd', fel mae rhai beirniaid yn honni.

Diolch i gyfieithwyr, mae Aelodau'r Senedd Ewropeaidd yn gallu trafod materion yn eu mamiaith



Adnabod eich gwreiddiau ieithyddol

Mae ieithoedd yr UE yn tarddu o amrywiaeth o wreiddiau.

Mae'r rhan fwyaf yn perthyn i'r grŵp Indo-Ewropeaidd anferth; prif ganghennau hwn yw Germaneg, Romáwns, Slafeg a Chelteg. Mae Groeg ac ieithoedd y Baltig, Lithwaneg a Latfieg, hefyd yn ieithoedd Indo-Ewropeaidd, er nad ydynt yn rhan o'r prif ganghennau. Mae Hwngareg, Ffinneg ac Estoneg yn dod o'r grŵp ieithoedd Ffinno-Wgraid. Mae Malteg yn agos i Arabeg, gydag elfennau Eidaleg.

Mae'r rhan fwyaf o ieithoedd 'rhanbarthol' a 'lleiafrifol' yr UE hefyd yn perthyn i un o'r grwpiau uchod. Y prif eithriad yw Basgeg, a siaredir o boptu'r ffin rhwng Ffrainc a Sbaen; mae ymchwil ar ei gwreiddiau hi'n cael ei gwneud o hyd.

Mae'r syniad o iaith leiafrifol yn cynnwys nid yn unig ieithoedd llai eu defnydd megis Sami yn y Lapdir neu Lydaweg yng ngorllewin Ffrainc, ond hefyd y defnydd o ieithoedd swyddogol yr UE pan y'u siaredir gan leiafrif mewn aelod-wlad arall (megis Almaeneg yng ngogledd yr Eidal neu Hwngareg yn Romania a Slofacia). Mae dyfodiad gwledydd y Baltig gyda lleiafrifoedd Rwsieg eu hiaith wedi ychwanegu iaith 'leiafrifol' o fath newydd - un sy'n iaith genedlaethol mewn gwlad nad yw'n aelod o'r UE.

23 iaith swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yw Almaeneg, Bwlgareg, Daneg, Eidaleg, Estoneg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Gwyddeleg, Hwngareg, Iseldireg, Latfieg, Lithwaneg, Malteg, Portiwgaleg, Pwyleg, Romaneg, Saesneg, Sbaeneg, Slofaceg, Slofeneg, Swedeg a Tsieceg. Mae gan Gatalaneg, Basgeg a Galiseg statws ieithoedd swyddogol yn Sbaen sy'n golygu bod rhai o destunau'r UE yn cael eu cyfieithu o ac i'r ieithoedd hyn ar gost llywodraeth Sbaen.

Mae gan yr UE lai o ieithoedd swyddogol nag o aelod-wledydd. Mae hyn oherwydd bod yr Almaen ac Awstria'n defnyddio'r un iaith, bod Groeg a Chyprus ill dwy'n defnyddio Groeg, a bod gan Wlad Belg a Lwcsembwrg ieithoedd cyffredin gyda'u cymdogion yn Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd. Y canlyniad yw 23 o ieithoedd i 27 o wledydd.





Ieithoedd Ewrop

Almaeneg yw'r famiaith a siaredir gan y nifer fwyaf o bobl yn yr Undeb Ewropeaidd, sef rhyw 90 miliwn o siaradwyr brodorol, neu 18% o boblogaeth yr UE. Mae Saesneg, Eidaleg a Ffrangeg yn famiaith rhwng 60 a 65 miliwn o ddinasyddion yr UE yr un (12–13% o'r cyfanswm).

Fodd bynnag, Saesneg a siaredir gan 38%, ar amcangyfrif, o ddinasyddion yr UE fel eu hiaith estron gyntaf, gan ei rhoi ymhell o flaen Almaeneg a'r lleill fel yr iaith a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae Ffrangeg neu Almaeneg yn iaith estron gyntaf i tua 14% o ddinasyddion yr UE.

Mae dyfodiad 12 aelod-wladwriaeth newydd ers 2004 wedi cadarnhau safle'r Saesneg fel iaith gyffredin yr

Undeb Ewropeaidd. Ond mae hefyd wedi cryfhau safle'r Almaeneg, sydd bellach yn gydradd â Ffrangeg. Mae hyn oherwydd bod mwy o bobl yn siarad Almaeneg fel iaith estron na Ffrangeg yng ngwledydd canolbarth a dwyrain Ewrop. Oherwydd ffactorau hanesyddol a geowleidyddol, Rwsieg yw'r iaith estron gyntaf neu ail a siaredir yn y rhan fwyaf o'r gwledydd hyn. A dweud y gwir, mae'r arolwg mwyaf diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddwyd yn 2006, yn dangos mai pum iaith yw'r ieithoedd estron a siaredir gan y nifer fwyaf o ddinasyddion yr UE (gweler y blwch).

Nid yw'n syndod y ceir y sgiliau iaith gorau mewn gwledydd sy'n gymharol fach neu nad yw eu hieithoedd yn adnabyddus iawn mewn gwledydd eraill. Mae mwy na 90%

o'r bobl yn wyth o wledydd yr UE — yr Iseldiroedd, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Slofacia, Slofenia a Sweden — yn honni eu bod yn siarad ail iaith yn ychwanegol at eu mamiaith. Ar y pegwn arall, dim ond 34% o bobl Iwerddon a 38% o bobl Prydain sy'n honni eu bod yn medru ail iaith yn ddigon da i gynnal sgwrs.

'Mamiaith a dwy arall'


Er bod y rhan fwyaf o bobl Ewrop sy'n dysgu ail iaith yn dewis Saesneg, gydag Almaeneg a Ffrangeg wedyn, gall dewis ieithoedd eraill fod yn fwy priodol o dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae dinasyddion yr UE eisiau symud o un wlad i'r llall i chwilio am gyfleoedd gwaith gwell.



Ieithoedd estron mwyaf cyffredin yr UE

Cwestion: 'Pa ieithoedd, ar wahân i'ch mamiaith, ydych chi'n eu medru'n ddigon da i gynnal sgwrs?'

Atebion:



Mewn achosion o'r fath, gallai dysgu iaith gwlad gyfagos fod yn fwy defnyddiol yn uniongyrchol. Yn rhannol am y rheswm hwn, mae'r Undeb Ewropeaidd yn annog pobl i ddysgu dwy iaith estron os oes modd.

Yn ôl arolwg Eurobarometer 2006, dywedodd 28% o'r bobl a holwyd eu bod yn medru dwy iaith arall yn ychwanegol at eu mamiaith. Fodd bynnag, dangosodd yr arolwg hefyd fod rhwng hanner a dau draean o'r boblogaeth mewn saith gwlad yn yr UE (y Deyrnas Unedig, yr Eidal, Hwngari, Iwerddon, Portiwgal, Romania a Sbaen) heb fedru unrhyw ieithoedd estron.



Ymysg canlyniadau eraill yr arolwg mae'r canlynol.

- Mae 84% o'r bobl a holwyd yn meddwl y dylai pawb yn yr UE siarad un iaith yn ychwanegol at eu mamiaith. Mae tua hanner yn cefnogi'r syniad o famiaith a dwy iaith arall.
- Mae 68% o'r bobl a holwyd yn ystyried mai Saesneg yw'r iaith estron bwysicaf i'w dysgu, ac wedyn Ffrangeg (25%) ac Almaeneg (22%).
- Mae mwyafrif o bobl Ewrop yn credu y dylai plant ddechrau dysgu ieithoedd estron yn yr ysgol gyn-radd, rhwng 6 a 12 oed.
- Y prif resymau dros ddysgu iaith estron yw mynd ar wyliau neu mewn cysylltiad â gwaith. O'r bobl a

holwyd, mae 35% eisiau defnyddio eu sgiliau iaith ar eu gwyliau dramor. Mae 32% yn dysgu ieithoedd er mwyn eu defnyddio yn y gwaith, ac mae 27% yn eu dysgu er mwyn gallu gweithio mewn gwlad arall.

- Mae tua 63% o bobl Ewrop yn credu y dylai ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol gael mwy o gefnogaeth.



©Helen King/Van Parys Media

Mae llawer o bobl yn ymarfer eu sgiliau ieithyddol tra maent ar eu gwyliau



Ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol



Mae parch at amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yn un o nodweddion yr Undeb Ewropeaidd. Mae wedi'i gorffori yn Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop a fabwysiadwyd gan arweinwyr yr UE yn 2000. Mae ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol yn cael eu hamddiffyn yn fwy penodol gan siarter y cytunwyd arni y tu mewn i fframwaith Cyngor Ewrop.

Mae amrywiaeth ieithyddol yn cynnwys nid yn unig 23 iaith swyddogol yr UE ond ei ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol hefyd. Mae yna fwy na 60 o'r rhain, er bod y gwir nifer yn

dibynnu ar sut yr ydych yn diffinio iaith (yn hytrach na thafodiaith, er enghraifft). Mae'r ieithoedd hyn yn cael eu siarad gan hyd at 50 miliwn o bobl ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Tri diffiniad

Mae yna dri chategori a dderbynnir yn gyffredinol o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol:

- ieithoedd sy'n benodol i ranbarth a all fod mewn aelod-wladwriaeth neu ranbarth trawsffiniol, ac nad ydynt yn brif iaith yn unrhyw un o wledydd yr UE. Mae'r categori hwn yn cynnwys ieithoedd megis Basgeg, Catalaneg, Cymraeg, Ffriseg, Llydaweg a Sardeg;
 - ieithoedd a siaredir gan leiafrif o'r boblogaeth yn un o wledydd yr UE ond sy'n ieithoedd swyddogol yn un arall: er enghraifft, Almaeneg yn ne Denmarc, Ffrangeg yn y Vallée d'Aoste yng ngogledd yr Eidal, a Hwngareg yn Slofacia;
 - ieithoedd nad ydynt yn perthyn i diriogaeth benodol, megis rhai'r cymunedau Roma neu Iddewig yn yr UE (Romani ac Iddew-Almaeneg).
- Nid yw'r syniad o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol yn cynnwys tafodieithoedd o unrhyw un o'r ieithoedd swyddogol nac unrhyw un o'r ieithoedd a siaredir gan gymunedau o fewnfudwyr yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ieithoedd anffurfiol

Mae amrywiaeth fawr o ieithoedd o rannau eraill o'r byd yn cael eu siarad gan gymunedau o fewnfudwyr yng ngwledydd yr UE. Yn amlwg yn eu mysg mae Twrceg, gyda chymunedau sylweddol o fewnfudwyr yn yr Almaen, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Mae'r lleill yn cynnwys Arabeg y Maghreb (yn Ffrainc, Sbaen a Gwlad Belg yn benaf) yn ogystal ag Wrddw, Bengali a Hindi a siaredir gan fewnfudwyr o isgyfandir India yn y Deyrnas Unedig.

Yn gyffredinol, ni roddir statws na chydabyddiaeth ffurfiol i'r ieithoedd anffurfiol hyn yng ngwledydd yr UE. Ond mae cymunedau o fewnfudwyr yn cael arian gan yr UE i'w helpu i integreiddio i'w gwledydd preswyl newydd trwy ei raglenni datblygu cymdeithasol a rhanbarthol. Mewn rhai gwledydd, rhoddir cymorth iddynt hefyd ddatblygu sgiliau yn ieithoedd gwledydd eu tarddiad ac addysgir eu plant trwy gyfrwng yr ieithoedd hyn yn yr ysgol. Mae hon yn ffordd i'r bobl dan sylw gadw mewn cysylltiad â'u gwreiddiau diwylliannol ar yr un pryd ag y maent yn dysgu iaith a diwylliant y wlad lle maent wedi ymgartrefu. Gall sgiliau dwyieithog o'r fath hefyd fod yn gaffaeliad personol a chynnig posibiladau o ran gyrfa mewn nifer o feysydd.

Mae'r fenyw Suomi hon yn Lapland yn siarad iaith leiafrifol



© Travel-images.com



Ieithoedd er integreiddio

Mae llawer o awdurdodau lleol a llywodraethau cenedlaethol yn rhoi i fewnfudwyr hyfforddiant ieithyddol, cyrsiau ymgyfarwyddo â'r gymdeithas a'r diwylliant lleol, a chymorth i ddod o hyd i swyddi. Yn aml darperir yr elfennau olaf hyn trwy gyfrwng iaith y mewnffudwyr.

Daw un enghraifft o ddinas Ffleminaidd Ghent yng Ngwlad Belg, lle cynigir rhaglen gyflwyno i fewnfudwyr a ffoaduriaid cydnabyddedig, gan gynnwys 1,200 o oriau o wersi yn Iseldireg (iaith ardal Fflandrys), a 75 awr o gyrsiau ymgyfarwyddo dinesig. Darperir y cyrsiau hyn trwy gyfrwng Albaneg, Arabeg, Ffrangeg, Perseg, Rwsieg, Saesneg, Sbaeneg, Somali a Thwrceg.

Yn ninas Frankfurt-am-Main yn yr Almaen, cyn cwrs iaith 600 o oriau, ceir cwrs ymgyfarwyddo â'r ddinas a chyflwyniad i sefydliadau a system gyfreithiol genedlaethol yr Almaen. Mae'r cwrs yn cael ei gynnis trwy gyfrwng wyth iaith a'i addysgu gan fudwyr sydd wedi ymgartrefu'n lleol.

Mae system addysg y Ffindir yn cynorthwyo â chadw a datblygu mamieithoedd mewnffudwyr er mwyn sicrhau'r hyn a elwir dwyieithrwydd swyddogaethol. Mae addysg wedi cael ei chynnis mewn 52 o ieithoedd. Y mamieithoedd mewnffudwyr sydd wedi cael eu haddysgu'n fwyaf cyffredin yw Rwsieg, Somali ac Albaneg.

Datblygodd Hwngari ei pholisi cenedlaethol ar integreiddio ar sail prosiect peilot chwe mis o'r enw *Matra* a oedd yn cynnwys 1,200 o oriau o addysgu iaith i fewnfudwyr, 700 o oriau o ymgyfarwyddo diwylliannol a chyfreithiol, a chymorth ariannol gyda chostau byw.



Dosbarth iaith i fewnfudwyr yn Ffiena





Iaith a rhwyddineb symud



Mae'n gwneud synnwyr cyflogi siaradwyr brodorol i weithio mewn marchnadoedd allforio

© Shutterstock

Mae gan ddinasyddion yr UE yr hawl i fyw a gweithio mewn aelod-wladwriaethau ar wahân i'w gwlad gartref. Mae'r UE yn ei gwneud yn bosibl i bobl fynd i le mae'r swyddi. Medru ieithoedd eraill yw'r allwedd i wir rwyddineb symud yn yr UE, gan eich galluogi i fanteisio gymaint ag sy'n bosibl ar gyfleoedd ledled y cyfandir i weithio, astudio a theithio.

Nid yn unig mae dysgu'r iaith leol yn allweddol i gael swydd mewn gwlad arall, mae hefyd yn eich rhoi mewn cysylltiad â phobl leol. Yn aml mae hyn yn rhoi persbectif cwbl newydd ar yr hyn mae'n ei olygu i fod yn Ewropead

ac ar yr hyn yr ydym yn ei greu gyda'n gilydd. Efallai bod ein hanes cenedlaethol a'n treftadaeth ddiwylliannol yn wahanol, ond mae ein dyheadau a'n gobeithion am y dyfodol mewn cyt-gord agos iawn. Mae gallu siarad a'n gilydd yn codi ein hymwybyddiaeth o'r hyn sydd gennym yn gyffredin ac ar yr un pryd yn meithrin parch at ein gwahaniaethau diwylliannol ein gilydd.

Ieithoedd o bwys i fusnes

Mae astudiaeth a wnaethpwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd yn dangos y gall cwmnïau UE gollu cyfleoedd busnes oherwydd diffyg sgiliau iaith. Mae hyn yn arbennig o wir i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) nad ydynt yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i allforio i wledydd eraill yn yr UE. Yn ôl yr astudiaeth, mae hyd at 11% o BBaChau - bron 1 miliwn o gwmnïau - wedi colli contractau gyda chwsmeriaid posibl mewn gwledydd eraill yn yr UE oherwydd rhwystrau iaith. Mae'r astudiaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol amlieithedd er mwyn ennill busnes mewn marchnadoedd bydeang. Yn y cyd-destun hwn, Saesneg yw'r iaith allweddol, ond mae'r astudiaeth yn pwys-

leisio pwysigrwydd cynyddol Tsieinëeg, Arabeg a Rwsieg.

Er mwyn gwella eu perfformiad ym maes allforio, mae'r astudiaeth yn argymhell i gwmnïau:

- fabwysiadu ymagwedd strategol at gyfathrebu amlieithog;
- penodi siaradwyr mamiaith i weithio mewn marchnadoedd allforion;
- recriwtio staff sydd â sgiliau iaith a datblygu'r sgiliau hyn ymhellach;
- cyflogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd.

Mae amlieithedd ei hun yn sector twf yn yr economi, gan greu swyddi i athrawon iaith, cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a'u staff cymorth, yn ogystal ag i'r bobl sy'n cynllunio a chynhyrchu llwyfannau cymorth electronig a TG a'r rhaglennwyr ac arbenigwyr sy'n datblygu systemau cyfieithu â chymorth cyfrifiadu neu gyfieithu awtomatig.



Ieithoedd pawb

Bob blwyddyn nodir Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd ar 26 Medi.

Y syniad y tu ôl i'r digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r holl ieithoedd a siaredir yn Ewrop a phwysigrwydd dysgu ieithoedd er mwyn lledu goddefgarwch a chyd-ddealltwriaeth. Mae Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd yn dathlu amrywiaeth ieithyddol fel un o gryfderau Ewrop, ac yn hybu dysgu ieithoedd gydol oes yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mae un o'r posteri a ddefnyddir ar gyfer y digwyddiad hwn yn dangos y cyfarchiad arferol mewn 37 o ieithoedd.





Hybu dysgu ieithoedd

Mae'r UE wedi ymrwymo i gynnal hawliau'i ddinasyddion i rwyddineb symud personol a phroffesiynol, a'u gallu i gyfathrebu â'i gilydd. Mae'n gwneud hyn trwy ariannu nifer o raglenni i hybu dysgu ac addysgu ieithoedd Ewropeaidd. Mae gan y rhaglenni o leiaf un peth yn gyffredin: maent yn talu am brosiectau trawsffiniol gyda phartneriaid o ddwy o wledydd yr UE o leiaf, ac yn aml tair neu ragor.

Mae rhaglenni'r UE wedi'u cynllunio i gydategu polisiau addysg cenedlaethol aelod-wledydd. Mae pob llywodraeth yn gyfrifol am ei pholisi addysg ei hun, gan gynnwys addysgu ieithoedd. Yr hyn mae rhaglenni'r UE yn ei wneud yw creu cysylltiadau rhwng gwledydd a rhanbarthau trwy brosiectau ar y cyd sy'n gwella effaith dysgu ac addysgu ieithoedd.

Arian yr UE ar gyfer dysgu

Ers 2007 mae'r prif raglenni wedi cael eu cynnwys o dan fantell gyffredinol rhaglen dysgu gydol oes yr UE. Felly mae hybu dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol yn un o amcanion y rhaglen a'i phedair israglen benodol. Mae pob un o'r rhain wedi'i henwi ar ôl addysgwyr adnabyddus o Ewrop, ac mae pob un yn gyfrifol am un maes dysgu ac addysgu.

Mae'r gyntaf, sef Comenius (a enwyd ar ôl Jan Amos Comenius neu Komensky, addysgwyr o'r 17eg ganrif oedd yn dod o le sydd bellach yn y Weriniaeth Tsiec) yn ymdrin ag addysg gynradd ac uwchradd. Mae Erasmus (a enwyd ar ôl y dyneiddiwr o'r 16eg ganrif, Erasmus o Rotterdam), yn rhaglen arbennig sydd wedi'i bwriadu i alluogi myfyrwyr ac athrawon lefel prifysgol

i dreulio amser mewn prifysgol yn un arall o wledydd yr UE. Mae rhaglen Erasmus yn darparu cyrsiau iaith dwys i'r bobl sy'n cymryd rhan cyn iddynt fynd i aros dramor. Mae rhaglen Leonardo da Vinci (a enwyd ar ôl gwron y Dadeni yn yr Eidal) yn canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Grundtvig yw'r bedwaredd raglen, a enwyd ar ôl N. F. S. Grundtvig, arloeswr ym maes addysg i oedolion yn y 19eg ganrif yn Nenmarc. Mae'r rhaglen hon yn arbenigo mewn addysgu oedolion.

Yn eu meysydd cyfrifoldeb, nod pob rhaglen benodol yw:

- annog pobl i ddysgu ieithoedd ar bob lefel o addysg ac ym mhob oedran yn ystod eu bywyd gwaith;
- gwella'r gallu i gael at adnoddau dysgu ieithoedd ledled Ewrop;
- datblygu a lledaenu technegau addysgu arloesol ac arferion da;
- sicrhau bod ystod ddigon eang o offer dysgu ar gael i bobl sy'n dysgu ieithoedd;
- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amlieithedd fel un o asedau economaidd a chymdeithasol allweddol yr UE.



Nid yw hi fyth yn rhy gynnar i ddysgu iaith arall

Mae pob iaith yn gymwys i gael cymorth o dan y rhaglenni penodol hyn: ieithoedd swyddogol, ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol, ieithoedd mudwyr ac ieithoedd partneriaid masnachu pwysig yr UE.

Mae yna ganolfannau gwybodaeth cenedlaethol ym mhob gwlad, sy'n rhoi manylion am sut i wneud cais i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn (gweler ec.europa.eu/ploteus).

Pontydd trawsddiwylliannol

Mae rhaglenni diwylliannol yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn hybu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol mewn nifer o ffyrdd. Mae rhaglen MEDIA yn ariannu trosleisio ac isdeitlo ffilmau Ewropeaidd i'w dangos mewn sinemâu ac ar y teledu mewn gwledydd eraill yn yr UE. Mae rhaglen 'Diwylliant' yn codi pontydd trawsddiwylliannol trwy gynorthwyo â chyfeithu gwaith awduron modern i ieithoedd eraill yr UE.



© Council of the European Union

Leonardo yn helpu i gadw'r heddwch

Daeth rhaglen hyfforddiant galwedigaethol Leonardo da Vinci yn rhan o faes gweithgaredd annisgwyl pan ariannodd raglen hyfforddiant traws-wladol i wella sgiliau iaith ceidwaid heddwch yr UE a anfonwyd ar gyrchoedd milwrol, dyngarol neu fel heddlu i fannau cythryblus o gwmpas y byd.

Roedd y rhaglen, a alwyd Linguapeace Europe, yn

cynnwys partneriaid o 11 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Roeddent yn cynnwys yr Almaen, Bwlgaria, y Deyrnas Unedig, Estonia, Ffrainc, Gwlad Pwyl, Hwngari, Latfia, Lithwania, Romania a Sbaen.

Er mwyn i gyrchoedd amlwladol yr UE fod yn effeithiol, rhaid i'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt allu siarad â'i gilydd, yn aml yn rhugl ac yn gywir iawn. Bu Linguapeace Europe yn datblygu, profi a lledaenu hyfforddiant iaith a deunyddiau cyfeiriol ar lefelau canolradd ac uwch, gan gyrraedd safon cymhwysedd ieithyddol a gydnabyddir gan gyrff cymwysterau rhyngwladol a chenedlaethol.

Mae angen iaith gyffredin ar gymodwyr yr UE yn Affrica i ddatrys problemau gweithredol





Offer amlieithedd

Mae amrywiaeth ieithyddol yn rhan o fywyd pob dydd yn yr Undeb Ewropeaidd heddiw. Gyda 500 miliwn o ddinasyddion o wahanol gefndiroedd ethnig, diwyllianol ac ieithyddol, mae'n bwysicach nag erioed i roi iddynt y sgiliau i ddeall a chyfathrebu â'i gilydd. Ar yr un pryd, gellir gwneud mwy i ddatblygu amlieithedd fel offeryn i helpu cwmnïau'r UE i ddod yn fwy cystadleuol ac i sicrhau marchnadoedd allforion newydd yn Ewrop a'r tu hwnt.

Felly mae mentrau fel rhaglen dysgu gydol oes yr UE yn bwysig wrth gydategu'r hyn y gall llywodraeth pob gwlad ei gynnal i'w dinasyddion a'i chwmnïau. Mae cefnogaeth yr UE i amlieithedd wedi cael ei chryfhau yn y cyfnod rhaglenni presennol, sef 2007–13. Mae'n nodi bod dysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithyddol yn amcanion cyffredinol ac mae'r gyllideb ar gyfer prosiectau ieithyddol wedi cael ei chynyddu.

Geiriaduron a rheolau gramadegol: ein hofferynnau sylfaenol er mwyn dysgu ieithoedd



Mae iaith arall yn well

Mae cysyniad yr UE o amlieithedd i ddinasyddion unigol yn uchelgeisiol iawn. Er bod dysgu un iaith estron yn ychwanegol at eich mamiaith yn dda, mae dysgu iaith ychwanegol arall yn well fyth. Rhwng yr arolwg Eurobarometer mwyaf diweddar gan y Comisiwn yn 2006 a'r un blaenorol bum mlynedd ynghynt, roedd nifer y bobl a holwyd a ddywedodd eu bod yn medru dwy iaith yn ychwanegol at eu mamiaith wedi codi o 26% i 28%.

Mae'r UE yn ymwybodol bod sgiliau iaith yn anwastad eu lledaeniad ar draws gwledydd a grwpiau cymdeithasol. Mae ystod yr ieithoedd estron mae dinasyddion yr UE yn eu siarad yn gul; nid yw dibynnu ar un iaith gyffredin, sef Saesneg, waeth pa mor bwysig yw hi, yn ddigon. Mae'r UE yn credu bod nod 'mamiaith a dwy arall' yn uchelgeisiol, ond nid yn amhosibl ei chyrraedd. Gweithgaredd gydol oes yw dysgu iaith, gan ddechrau yn yr ysgol (neu hyd yn oed cyn yr ysgol) a pharhau trwy bob lefel o addysg a phob cyfnod o fywyd.

Dysgu gydol oes yn yr ysgol a'r tu allan iddi

Er y dylai addysgu ieithoedd ddechrau'n gynnar, nid yw'n gwneud synnwy'r ond os yw'r athrawon wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i'w dysgu i blant ifanc. Hefyd, dylai maint y dosbarthiadau fod yn gymharol fach, ac mae angen neilltuo digon o amser yng nghwricwlwm yr ysgol i ddysgu ieithoedd.

Mae angen i ysgolion ymateb i'r her trwy gynnig ystod o ieithoedd sydd

mor eang ag sy'n bosibl. Dylent hefyd recriwtio a hyfforddi mwy o athrawon — ac yma gall rhanbarthau o boptu ffiniau gydweithredu â'i gilydd.

Dylai oedolion hefyd gael mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio sgiliau iaith. Dylid cymryd gofali i hybu pob iaith gan gynnwys ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol, i ddarparu mwy o leoliadau ar gyfer dysgu ieithoedd, i ddefnyddio'r rhyngwyd mwy ar gyfer dysgu ieithoedd, ac i ddarparu mwy o isdeitlo ar y teledu ac yn y sinema.

Mae'r UE yn argyhoeddedig bod cost hybu defnyddio ail a thrydedd iaith gan ddinasyddion yr UE yn rhesymol o'i chymharu â'r cyfleoedd personol a phroffesiynol a gollir — ac effeithiau negyddol y busnes a gollir ar economi'r UE — oherwydd sgiliau iaith annigonol.

Gwybodaeth glir am eich gallu

Dau gyfraniad ymarferol o bwys i hybu sgiliau iaith yw'r Europass Language Passport a'r Europass CV. Bwriad y ddau offeryn yw cynorthwyo'r sawl sy'n eu defnyddio trwy gyflwyno ei gymwysterau, ffurfiol neu anffurfiol, mewn ffordd safonol — yn ôl iaith yn unig, neu fel CV cyflawn. Gellir eu llenwi ar-lein neu eu llwytho i lawr a'u cwblhau ar bapur (europass.cedefop.europa.eu).

Mae'r ffordd gyffredin hon o ddisgrifio'ch gallu mewn iaith wedi lleihau'r dryswch a achosir gan y nifer fawr o lefelau cymhwysedd a gwahanol fformiwlâu a ddefnyddiwyd i'w ddisgrifio o'r blaen.





Rhedeg Undeb Ewropeaidd amlieithog



Mae'r rhesymau pam y mae'r Undeb Ewropeaidd yn defnyddio 23 o ieithoedd swyddogol yn ddiagon syml: democratiaeth, tryloywder a'r hawl i wybod.

Mae deddfwriaeth yr UE yn uniongyrchol berthnasol ledled yr Undeb ac felly i'w holl ddinasyddion a busnesau. Rhaid i deddfwriaeth newydd gael ei chyhoeddi a bod ar gael iddynt mewn iaith y gallant ei deall. Fel mewn unrhyw ddemocratiaeth, mae gan bob dinesydd hawl sylfaenol i wybod pam y mae deddf benodol yn cael ei mabwysiadu, a fydd yn effeithio ar ei fywyd beunyddiol ac os felly, sut. Mae defnyddio'r holl ieithoedd swyddogol hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan yn y trafodaethau cyhoeddus a'r ymgynghoriadau mae'r UE yn eu lansio, ar lein yn aml.



Yr egwyddor sylfaenol yw bod gan yr holl ddinasyddion a'u cynrychiolwyr etholedig yr un hawl mynediad i'r UE ac y gallant gyfathrebu gyda'i sefydliadau a'i awdurdodau yn eu hiaith eu hunain.

Mae gan gynrychiolwyr etholedig yn Senedd Ewrop hawliau cyfartal i siarad ar ran eu hetholwyr yn eu

Yn brysur yn y cefndir: cyfieithwyr yng nghyfarfodydd ffurfiol yr UE



hiaith eu hunain. Mae'r un peth yn wir am weinidogion llywodraethau yng nghyfarfodydd swyddogol yr UE neu ddinasyddion sy'n cyflwyno cwynion i Ombwdsmon Ewrop.

Dinasyddion yn cymryd rhan

Mae ei swyddogaeth deddfu a'r ffaith bod ei ddinasyddion yn cymryd rhan uniongyrchol ynddo yn esbonio pam mae'r UE yn defnyddio mwy o ieithoedd na chyrrff amlwladol eraill fel y Cenhedloedd Unedig neu NATO, sy'n gweithredu ar y lefel rynglywodraethol yn unig, heb unrhyw swyddogaeth deddfu. Dim ond chwe iaith mae'r Cenhedloedd Unedig yn eu defnyddio, er bod ganddynt fwy na 190 o aelodau. Mae Cyngor Ewrop, sydd â mwy o aelodau na'r UE, yn cyhoeddi dogfenau swyddogol yn Saesneg a Ffrangeg yn unig, ac mae NATO yn gwneud yr un peth.

Mae sefydliadau'r UE wedi mireinio eu gweithdrefnau dros y blynyddoedd er mwyn ymdopi â'r nifer gynyddol o ieithoedd swyddogol. Maent hefyd wedi ymdrechu i roi i ddinasyddion a llywodraethau gyfieithu a chyfieithu ar y pryd o ansawdd da, yn effeithlon ac yn ddarvoudus. Mae sgiliau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig fel esiamplau ledled y byd.

Defnyddio adnoddau'n gall

Mae yna gost i redeg UE amlieithog. Ond cost resymol yw hi wrth ystyried y canlyniadau. Rhyw 1% o gyllideb yr UE, neu ychydig dros € 2 i bob dinesydd, yw cost flyneddol cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Dim ond cyfran gymharol fach mae cyfanswm y gost wedi codi,

er gwaethaf dyfodiad 12 gwlad newydd ers 2004.

Mae cyfieithwyr yn gweithio gyda thestunau ysgrifenedig a chyfieithwyr ar y pryd yn gweithio ar lafar. Ond rhaid i'r ddau allu gweithio i'w prif iaith (eu mamiaith fel arfer) o ddwy arall o ieithoedd yr UE o leiaf.

Mae defnyddio 23 o ieithoedd swyddogol yn rhan o wyneb cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd. Yn fewnol, mae'r sefydliadau'n gweithredu gyda gweithdrefnau symlach er mwyn effeithlonrwydd, cyflymder a chost. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd, er enghraifft, yn gweithio mewn tair prif iaith, sef Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau'n cael eu drafftio yn un o'r ieithoedd hyn ac yn cylchredeg yn fewnol ymysg yr adrannau a'r gwasanaethau dan sylw nes bod y drafft terfynol yn barod i'w gyhoeddi neu i'w drosglwyddo i sefydliad arall megis Senedd Ewrop neu Gyngor y Gweinidogion. Ar yr adeg honno caiff ei gyfieithu i'r 22 o ieithoedd eraill.

Mae Senedd Ewrop, lle yn aml mae angen cynhyrchu dogfennau'n gyflym ym mhob un o'r ieithoedd swyddogol, wedi datblygu system wedi'i seilio ar dair iaith 'ganolog', sef Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Ni fydd dogfen a gyflwynir yn Slofaceg neu Swedeg, dyweder, yn cael ei chyfieithu'n uniongyrchol i bob un o'r 22 o ieithoedd eraill. Yn lle hynny caiff ei chyfieithu'n gyntaf i'r tair iaith ganolog, gan adael cyfieithwyr yn rhydd i ddefnyddio un o'r rhain er mwyn ail-gyfieithu'r testun i'w prif iaith.

Mae hyn yn cyfyngu ar yr angen i gael cyfieithwyr a all weithio'n uniongyrchol o Falteg i Ddaneg neu o Estoneg i Bortiwgaleg, er enghraifft.



Ar lafar

Mae cyfieithwyr ar y pryd yr UE yn defnyddio system debyg wrth gyfieithu o ac i'r 23 o ieithoedd swyddogol. Er enghraifft, caiff geiriau siaradwr Ffinneg eu cyfieithu i nifer gyfyngedig o ieithoedd 'tros-glywyddo'. Bydd cyfieithydd Slofaceg yn defnyddio un o'r rhain fel yr iaith wreiddiol, gan ddileu'r angen am bobl a all gyfieithu ar y pryd yn uniongyrchol o Ffinneg i Slofaceg.

Mae defnyddio llwybrau brys ieithyddol fel hyn yn gwneud synnwyr yn ymarferol ac yn economaidd — ar yr amod y cynhelir safonau. Her fawr felly yw rheoli ansawdd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

Mae cyfieithwyr ar y pryd hefyd yn darparu gwasanaethau symlach ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a chyfarfodydd gwaith. Mewn rhai achosion, dim ond ieithoedd mwyaf cyffredin yr UE a ddefnyddir. Mewn rhai eraill, efallai y bydd y bobl sy'n cymryd rhan yn gallu siarad nifer fawr o ieithoedd, ond ni chaiff y rhain eu cyfieithu ond i ddwy neu

dair o'r rhai a ddefnyddir mwyaf. Y syniad yw bod y siaradwyr yn rhydd i fynegi eu hunain yn eu hiaith eu hunain, neu mewn iaith maent yn teimlo'n gyfforddus â hi, ond y rhagdybir bod ganddynt ddigon o wybodaeth oddefol o un o brif ieithoedd yr UE i ddilyn y cyfarfod yn yr iaith honno.

Bob dydd, mae'n rhaid i wasanaeth cyfieithu ar y pryd y Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor y Gweinidogion ofalu am ryw 60 o gyfarfodydd gwahanol ym Mrwsel neu yn lleoliadau eraill yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol gyda chyfieithu ar y pryd llawn, i ac o'r 23 o ieithoedd swyddogol sydd gan yr UE. Mae unrhyw gyfarfod o'r fath yn galw am dîm o 69 o gyfieithwyr ar y pryd.

Technolegau newydd

O gofio maint a natur unigryw eu gwasanaethau ieithyddol, mae sefydliadau'r UE yn dibynnu'n fawr ar y cymorth y mae technolegau newydd yn ei gynnig. Cyfieithu

ar y pryd o bell, rheoli gwefannau amlieithog a chyfieithu â chymorth cyfrifiadur yw'r enghreifftiau amlycaf.

Gan fanteisio ar y rhaglenni sydd ar gael ar y farchnad a datblygu eu datrysiadau eu hunain, mae gwasanaethau ieithyddol Ewrop wedi dod yn labordy delfrydol ac yn offeryn cyfeirio byd-eang. Mae canlyniadau eu hymdrechion yn cael eu cynnig i'r cyhoedd ac yn aml yn cael eu defnyddio gan ymchwilwyr a chwmnïau preifat.



Nid oes dim yn cael ei goli wrth gyfieithu: darllenwch am Ewrop yn eich iaith eich hun



Heriau'r dyfodol

Mae cyfrifoldeb ffurfiol ar yr UE i barchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Mae'n gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- mae'n parchu ein hawl i siarad ac ysgrifennu ein hiaith eu hunain ac yn ymestyn yr hawl hwn i'n hymwneud gyda sefydliadau'r UE;
- mae'n cefnogi defnyddio ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol, heb ystyried a yw'r ieithoedd hyn yn ieithoedd swyddogol yr UE ai peidio;
- mae'n mynd ati i hybu dysgu ieithoedd ac amlieithedd fel ffordd

i ddinasyddion unigol yr UE wella'u hunain ac fel modd i greu swyddi a thwff ledled economi'r UE.

Mae'r UE wedi cynyddu'r gweithgareddau hyn wrth i aelodaeth yr UE gynyddu ac wrth i nifer yr ieithoedd swyddogol ddyblu ers 2004. Bydd yn parhau i wneud hynny wrth i'r UE baratoi i ehangu ymhellach.

Er ei fod yn cydnabod bod Saesneg yn dod i'r amlwg fel yr iaith a siaredir yn fwyaf cyffredin yn Ewrop, mae'r Undeb hefyd eisiau sicrhau nad yw hyn yn dod, dros amser, yn ffactor a fydd yn cyfyngu ar amrywiaeth

ieithyddol y tu mewn i'w ffiniau. Dyna pam mae'n pwysleisio manteision personol, cymdeithasol ac economaidd amlieithedd a pham mae wedi gosod targed uchelgeisiol o gael cynifer o ddinasyddion yr UE ag sy'n bosibl i ddysgu dwy iaith yn ychwanegol at eu mamiaith.

Yr her i'r UE yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau a chreu'r polisïau a'r rhaglenni cynhaliol y mae eu hangen er mwyn sicrhau'r math o amlieithedd mae'n ei geisio yn yr amser byrraf posibl.



Dewiswch eich iaith: y porth i wefan yr UE



DARLLEN PELLACH

Gellir cael gwybodaeth am ddefnyddio ieithoedd yn yr Undeb Ewropeaidd ar borth ieithoedd yr UE:

europa.eu/languages/en/home

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyfieithu yn y Comisiwn Ewropeaidd wedi cynhyrchu ei llyfrynau gwybodaeth ei hun, sydd ar gael ar:

ec.europa.eu/dgs/translation/index_en.htm

Gellir cael gwybodaeth am gyfieithu ar y pryd a chyfieithwyr ar y pryd yn yr UE ar:

ec.europa.eu/dgs/scic/index.htm

Mae gwybodaeth am raglen dysgu gydol oes yr UE a'i hisraglenni ar gael ar:

ec.europa.eu/ploteus

Cysylltu hefo'r UE



EWCH AR LEIN

Mae gwybodaeth yn holl ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gael ar y Rhynggrwyd. Gallwch gael mynediad at y wybodaeth hon trwy weinyddwr Europa:

europa.eu.int

YMWELD Â NI



Mae cannoedd o ganolfannau gwybodaeth UE lleol ledled Ewrop. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad y ganolfan sydd agosach atoch chi ar wefan hon:

europa.eu.int/comm/relays/index_en.htm



GALWCH NEU YSGRIFENWCH ATOM NI

Mae **EUROPE DIRECT** yn wasanaeth sy'n ateb eich cwestiynau am yr Undeb Ewropeaidd. Gallwch chi gysylltu â'r gwasanaeth hwn drwy radffôn :

00 800 6 7 8 9 10 11 (neu drwy ffôn talu o'r tu allan i'r UE: **+ 32-2-299-96-96** neu drwy e-bost drwy **europa.eu.int/europedirect**



DARLLENWCH AM EWROP

Mae cyhoeddiadau am yr UE o fewn cyrraedd clic llygoden ar wefan Siop Lyfrau'r UE

bookshop.europa.eu

GALLWCH GAEL GWYBODAETH A LLYFRYNNAU AM YR UNDEB EWROPEAIDD HEFYD O:

CYNYRCHOLAETHAU'R COMISIWN EWROPEAIDD

■ Cynrychiolaeth yn Iwerddon

18 Dawson Street
Dublin 2
Ffôn: (353-1)634 11 11
Ffacs: (353-1)634 11 12
Rhynggrwyd: www.euireland.ie
E-bost: eu-ie-info-request@cec.eu.int

■ Cynrychiolaeth yn y Deyrnas Unedig

8 Storey's Gate
London
SW1P 3AT
Ffôn: (44-20) 79 73 19 92
Ffacs: (44-20) 79 73 19 00/10
Rhynggrwyd: www.cec.org.uk

■ Cynrychiolaeth yn yr Alban

9 Alva Street
Edinburgh
EH2 4PH
Ffôn: (44-131) 225 20 58
Ffacs: (44-131) 226 41 05

■ Cynrychiolaeth yng Nghymru

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4QQ
Ffôn: (44-29) 20 89 50 20
Ffacs: (44-29) 20 89 50 35
Rhynggrwyd: www.cec.org.uk

■ Cynrychiolaeth yng Ngogledd Iwerddon

Windsor House
9/15 Bedford Street
Belfast
BT2 7EG
Ffôn: (44-28) 90 24 07 08
Ffacs: (44-28) 90 24 82 41
Rhynggrwyd: www.cec.org.uk

■ Gwasanaethau gwybodaeth yn yr Unol Daleithiau

2300 M Street, NW – 3rd floor
Washington DC 20037
Ffôn: (202) 862 95 00
Ffacs: (202) 429 17 66
Rhynggrwyd: www.eurunion.org
222 East 41st Street, 20th floor
New York, NY 10017
Ffôn: (212) 371 38 04
Ffacs: 9212) 688 10 13
Rhynggrwyd: www.eurunion.org

SWYDDFEYDD SENEDD EWROP

■ Swyddfa Iwerddon

European Union House
43 Molesworth Street
Dublin 2
Ffôn: (353-1) 605 79 00
Ffacs: (353-1) 605 79 99
Rynggrwyd: www.europarl.ie
E-bost: epdublin@europarl.eu.int

■ Swyddfa'r Deyrnas Unedig

2 Queen Anne's Gate
London
SW1H 9AA
Ffôn: (44-20) 72 27 43 00
Ffacs: (44-20) 72 27 43 02
Rynggrwyd: www.europarl.org.uk
E-bost: eplondon@europarl.eu.int

■ Swyddfa'r Alban

The Tun
4 Jackson's Entry
Holyrood Road
Edinburgh
EH8 8PJ
Ffôn: (44-131) 557 78 66
Ffacs: (44-131) 557 49 77
Rynggrwyd: www.europarl.org.uk
E-bost: epedingurgh@europarl.eu.int

Mae cynrychiolaethau a swyddfeydd y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop yn holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd gynrychiolwyr mewn rhannau eraill o'r byd hefyd.



Ewrop ar fynd

Siarad dros Ewrop

leithoedd yn yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r UE yn hybu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol ei bobloedd. Mae'n gwneud hynny trwy gefnogi addysgu a dysgu eu hieithoedd. Nod uchelgeisiol yr UE yw galluogi ei ddinasyddion i fod yn rhugl mewn dwy iaith yn ogystal â'u mamiaith.

Mae sefydliadau'r UE yn gweithio gyda 23 o ieithoedd swyddogol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod holl ddinasyddion yr UE, waeth ydynt yn siarad un o ieithoedd mawr Ewrop neu iaith lai adnabyddus, yn cael mynediad cyfartal i bolisiau a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r llyfryn hwn yn edrych yn ei dro ar yr amrywiaeth fawr o ieithoedd a siaredir yn yr UE, y llu o ffyrdd y gall pobl Ewrop gael budd o ddysgu ieithoedd, a rhaglenni cymorth yr UE. Yn olaf mae'n edrych ar yr hyn y mae ei angen i redeg Undeb amlieithog.



Swyddfa Cyhoeddiadau

ISBN 978-92-79-12814-1



9 789279 128141